


Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL



Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
ymholiadau@ffinau.cymru
www.cffdl.llyw.cymru

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
enquiries@boundaries.wales
www.ldbc.gov.wales

Cynigion Drafft Bro Morgannwg – atal ymgynghoriad dros dro

24 Mawrth 2020

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu atal ei ymgynghoriad ynglŷn â'i gynigion drafft ar gyfer trefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn y dyfodol [Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion drafft ar 13 Chwefror 2020](#). Dechreuodd y cyfnod ymgynghori 12 wythnos ynglŷn â'r cynigion drafft ar 20 Chwefror 2020 a disgwyliwyd iddo ddod i ben ar 13 Mai 2020.

Mae'r Comisiwn wedi cael gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn canolbwyntio ar ei ymateb brys i'r pandemig COVID-19. Mae'r Cyngor wedi dweud y bydd atal ei gyfarfodydd yn golygu na all ymateb i adroddiad drafft y Comisiwn, ac mae wedi gofyn i'r Comisiwn gymryd camau i alluogi'r Cyngor i ymateb pan fydd ei weithrediadau arferol yn ailgychwyn.

Yng ngoleuni'r cais hwn a'r anawsterau posibl i ymgynghoreion eraill o ganlyniad i'r pandemig presennol, mae'r Comisiwn yn atal yr ymgynghoriad ynglŷn â'i gynigion drafft ar gyfer Bro Morgannwg o **24 Mawrth 2020**.

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn bwriadu ailgychwyn yr ymgynghoriad hwn ar **15 Mehefin 2020**. Bydd atal dros dro tan y dyddiad hwnnw yn darparu cyfnod o 12 wythnos i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac ymgynghoreion eraill addasu eu trefniadau gwaith er mwyn gallu ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn.

Cyn 15 Mehefin 2020, bydd y Comisiwn yn adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni datblygiadau ehangach a bydd yn rhoi gwybodaeth bellach i ymgynghoreion. Bydd y Comisiwn yn ailgychwyn ei ymgynghoriad dim ond pan fydd yn fodlon bod ymgynghoreion wedi cael digon o gyfle i fynd i'r afael â'r amhariad ar eu gallu i ymateb o ganlyniad i'r pandemig presennol.

Pan fydd y cyfnod ymgynghori'n ailgychwyn, bydd cyfnod o **50 o ddiwrnodau** i bartïon â buddiant gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn mewn perthynas ag adroddiad drafft Bro Morgannwg. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd iddo, yn paratoi Argymhellion Terfynol ac yn cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cymru.

Gellir anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn ag atal yr ymgynghoriad hwn dros dro at **ymholiadau@ffiniau.cymru** neu i'r cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Caerdydd

CF24 0BL



Shereen Williams

Prif Weithredwr / Chief Executive

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission for Wales